

Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru 2017-18

Darparwyd gan: Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Dyddiad: 11 Ionawr 2019

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau yr adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r tri argymhelliad sydd wedi'u cynnwys o fewn iddo.

Argymhelliad 1 – Rydym yn argymhell bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhannu canfyddiadau'r adolygiad annibynnol pan fydd wedi ei gwblhau, sydd i ddigwydd ar ddiwedd 2018. Mae'n rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad fod ar gael i'r cyhoedd.

Derbyn – Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i'r Pwyllgor ynghylch yr argymhelliad hwn. Rydym yn deall, fodd bynnag, y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi casgliadau'r adolygiad annibynnol i'r Pwyllgor ac y bydd yn eu cyhoeddi ar ei wefan. Rydym yn disgwyl i hyn fod mewn pryd ar gyfer sesiwn nesaf Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2019.

Argymhelliad 2 – Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn creu cynllun gweithredu gydag amserlen glir ac amcanion ar gyfer cyflawni. Mae'n rhaid i'r cynlluniau nodi'r newidiadau sydd eu hangen i weithredu hyn yn codi o'r adolygiad annibynnol. Mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru rannu'r cynlluniau hyn gyda'r Pwyllgor pan fyddant wedi'u cwblhau.

Derbyn – Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i'r Pwyllgor ynghylch yr argymhelliad hwn. Rydym ar ddeall y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cynllun gweithredu i'r Pwyllgor fel rhan o'u tystiolaeth ar gyfer y sesiwn nesaf gyda'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2019.

Argymhelliad 3 – Rydym yn argymhell, os nad yw canfyddiadau'r adolygiad annibynnol ar fethiannau llywodraethu yn ddigonol, bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adolygiad cynhwysfawr yn cael ei gynnal ar unwaith o lywodraethu o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, gan edrych ar sut oedd yn bosibl i'r methiannau hyn ddigwydd.

Derbyn– Wrth dderbyn canfyddiadau'r adolygiad annibynnol, ac wrth ystyried y dystiolaeth y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei rhoi i'r Pwyllgor ym mis Chwefror, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor wedi hyn.